

Cyngor Cymuned Llanelian (269)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Hydref 13, 2015 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:

Dafydd Griffiths, T Elfyn Hughes, Thomas D Jones, John Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Wesley Parry, David Gerrard, Aled Morris Jones

Ymddiheuriadau:

Hefina Williams, Helen Hughes, Wil Hughes, Richard Jones

1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan D Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod. Estynnwyd croeso arbennig i'r aelod newydd W Parry.

2 Datgan Diddordeb

Nid oedd unrhyw aelod am ddatgan diddordeb.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig G Hayes, Eilio TD Jones

4 Materion yn Codi

4.1 Datblygiad Corn Cam – cafwyd ebost gan y datblygwyr 4 Crosses Construction Ltd yn cadarnhau eu bod yn derbyn cynnig y Cyngor Cymuned ac am enwi'r datblygiad ger Corn Cam yn 'Maes Lletroed'.

4.2 Carffosiaeth – cafwyd ymateb gan Dwr Cymru i'r pryderon a fynegwyd yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Erbyn hyn maent wedi newid a gosod clawr newydd ar y draen yng nghanol y cae chwarae. Nodwyd yn eu llythyr nad ydynt yn gallu cymryd unrhyw gamau i ddatrys y broblem ar hyn o bryd gan nad oes cofnod digonol ganddynt o'r broblem h.y. nid oes digon o gwynion wedi eu cofrestru ganddynt. Cytuno dylid dosbarthu manylion cyswllt Dwr Cymru i drigolion yr ardal gyfagos a hefyd i rieni sydd yn defnyddio'r parc fel bod modd iddynt gysylltu a chofnodi dyddiad ac amser pan fydd yr arogl ar ei waethaf. C Whitaker a D Gerrard i drefnu bod posteri yn cael eu dosbarthu.

4.3 Offer Chwarae – nid yw'r gwaith cywiro wedi ei wneud hyd yma. Disgwilir cael dyddiad pendant gan y cwmni erbyn diwedd yr wythnos.

4.4 Swyddfa Bost – dosbarthwyd gopi o gofnodion cyfarfod brys a gynhaliwyd gyda'r Cynghorwyr Sirol wedi i'r llinell gymorth swyddogol ddatgan bod y swyddfa bost wedi ei gau yn ei gyfanrwydd a bod offer cyfrifiadurol wedi ei symud o'r adeilad. Wedi'r cyfarfod fodd bynnag mae'r swyddfa bost yn y pentref wedi ail agor ac fe ddeallwyd gan y Swyddfa Bost bod aelod newydd o staff wedi eu penodi, oriau agor newydd wedi eu cytuno a gobeithir y byddai hyn yn ateb hir dymor i gadw'r cyfleustur yn y pentref.

4.5 Camerau A5025 – nid oes cadarnhad gan CSYM hyd yma. Mae AM Jones wedi cysylltu a'r adran briffyrdd i ofyn eto am esboniad.

5 Cynllunio

5.1 Ceisiadau – cyflwynwyd tri cais cynllunio –

- Tyddyn Mawr, Nebo – dim sylw
- Dwyfor, Llanelian – dim sylw
- (Tir ger) Rhos Wen, Gadfa – gwrthwynebu ar sail gweithgareddau diwydiannol, lefelau swn, llwch, effeithiau amgylcheddol, teimlo nad oedd y gweithgareddau yn addas i'r lleoliad

5.2 Penderfyniadau -

Nid oedd penderfyniadau i'w cofnodi.

5.3 Panel Cynllunio – cafwyd cadarnhad gan AM Jones sut oedd y broses o alw ceisiadau cynllunio o flaen y panel cynllunio yn gweithio a bod y broses honno yn wahanol i Wynedd. Deallwyd bod y Cyngor Cymuned, fel corff statudol yn gryfach ei lais nac unigolyn yn y gymuned.

6 Materion Ariannol

- 6.1 Adroddiad Cyllid – dosbarthwyd taflen yn crynhoi incwm a gwariant y Cyngor dros y chwe mis cyntaf o'r flwyddyn ariannol o'i gymhau a'r hyn oedd wedi ei dybio/argymhell pan osodwyd y gyllideb am y flwyddyn. Cafwyd esboniad gan y clerc am unrhyw wahaniaethau a phwyntiau o ddiddordeb. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.
- 6.2 Taliadau – cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£210.25 Costau'r Clerc Gorffennaf/Medi 2015
£965.77 Cyflog y Clerc Gorffennaf/Medi 2015
£35.25 HMRC (PAYE)
- 6.3 Cais am Arian – Trafodwyd cais gan Eisteddfod Llangollen a chytuno peidio a chefnogi. Nodwyd bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld ag Mon yn 2017 a bydd disgwyl i'r Cyngor cyfranu tuag at y gost honno pan ddaw.

7 Llithrfa

Mae'r bolard wedi ei thynnu erbyn hyn. Cytuno bod angen cyfarfod gyda Iwan Huws, John Owen ac Andy McAvady o bosib cyn cyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn gallu adrodd yn ol ar y tymor yma a chytuno ar amserlen ar gyfer y tymor nesaf.

CET

8 Gwasanaeth Tan

Cafwyd grynodedb gan D Griffith o gyfarfod gyda Gareth Griffiths, Uwch Swyddog Hyfforddiant a Datblygu Gwasanaeth Tan Gogledd Cymru drwy wahoddiad Cyngor Tref Amlwch. Mae ymgynghoriad blynyddol y gwasanaeth yn cymryd lle ar hyn o bryd.

9 Gohebiaeth

- 9.1 Gwybodaeth yn amlinellu sut mae'r ombwdsmon yn delio a chwynion yn erbyn aelodau o gynghorau tref a chymuned.
- 9.2 Gwahoddiad i sesiwn briffio gan y Grid Cenedlaethol pnawn Gwener Hydref 23 am 2.30 or gloch
- 9.3 Gwybodaeth am sesiynnau ymgynghori gan y Grid Cenedlaethol yn y gymuned agos. Bydd yr ail gam o'r ymgynghoriad yn cymryd lle 21/10/15-16/12/15
- 9.4 Rhifyn diweddaraf o newyddlen cymunedol y Grid Cenedlaethol.
- 9.5 Rhofyn diweddaraf cylchgrawn Chwarae Dros Gymru.

10 Unrhyw Fater Arall

- 10.1 Cwn – cafwyd ddiweddariad gan AM Jones o'r sefyllfa bresennol yn ymwneud a'r cwynion sydd am gwn yn Llaneilian. Deallwyd bod y warden gwn a'r heddlu yn cydweithio ar y mater erbyn hyn gyda phryderon am y math o gi, a'r nifer ohonynt.
- 10.2 Gor-yrru – mae pryderon am geir a beiciau modur yn gor-yrru pasio'r ysgol gynradd ac mae pryderon am didogelwch plant. Mae'r prifathro yn ymwybodol o'r broblem. Bydd G Jones yn dod a'r mater at sylw'r llywodraethwyr yn eu cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser, cytuno cysylltu a'r heddlu lleol i weld a fyddent yn gallu edrych i fewn i'r mater.
- 10.3 Binau ail-gylchu – mae'r binau yn orlawn eto, mae AM Jones wedi cysylltu a'r adran wastraff i drefnu eu gwagio.

11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 10/11/2015

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.30 o'r gloch.